# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 13eg 2022 yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Rhys Jones, Jean Roberts, Rhys Richards, Cyng. Elwyn Edwards, a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles ac Arwel Davies.

Gan nad oedd y cadeirydd na'r is-gadeirydd yn bresennol cytunodd Geraint Jones i gadeirio'r cyfarfod.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd y clerc yn dal i barhau gyda'i ymholiadau ynglŷn â thorri'r coed a oedd yn pwyso ar y llinellau ffon ar riw Llanycil.

b) Cynllun Bioamrywiaeth 2022-25.
Trafodwyd syniadau ar gyfer datblygu'r cynllun. Cytunwyd i gydweithio gyda'r ysgol, ysgol feithrin, CFFI a mudiadau lleol eraill ar brosiectau plannu blodau, gosod bocsys adar ayyb. Cytunwyd ar gyllideb o £50 y flwyddyn gan edrych am ffynonellau eraill hefyd i ddarparu offer.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.
i) Cyngor Cymuned Llandderfel – Fferm Wynt Gaerwen - Gwybodaeth am y diwrnod agored yn Llandderfel, 2/12/22.
ii) Cyngor Gwynedd - Adran Gwarchod y Cyhoedd - Ffliw Adar a Cheidwaid Dofednod Lleol
iii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft.
iv) Comisiwn Ffiniau i Gymru - cynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru.
v) GIG Cymru - Nodyn briffio, cynigion datblygu gwasanaeth
vi) Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad Etholiadau.
vii) Dwr Cymru - Diwrnodau Agored.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

**vi) Materion Ariannol**
a) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd cais gan Eisteddfod yr Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2023. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Angen clirio'r dail ar riw Parc cyn iddynt dagu'r gwteri.
ii) Amryw o gamfeydd ar y llwybrau cyhoeddus yn ardal Parc angen sylw.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Ionawr 17eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….